Gofal o dan yr Enfys

# Cyngor er mwyn creu cartrefi gofal cynhwysol i breswylwyr hŷn LHDT+

| Dylech... | Ni ddylech... |
| --- | --- |
| ✓ Deall a gwerthfawrogi y byddwch yn gweithio gyda phreswylwyr â hunaniaethau rhyw, hunaniaethau rhywedd a hanesion gwahanol. | × Defnyddio iaith ragfarnllyd na diystyru anghenion a hawliau preswylwyr LHDT+. |
| ✓ Ystyried ei bod yn bosib bod rhai o'ch preswylwyr yn arddel hunaniaeth LHDT+, yn cael rhyw ac wedi profi perthnasau un rhyw, yn amrywiol o ran rhywedd neu wedi ailbennu rhywedd rywbryd yn eu bywydau. | × Bod â barnau ystrydebol am bobl hŷn, rhywedd a rhywioldeb. Er enghraifft, cymryd yn ganiataol fod pob person hŷn yn anrhywiol neu heb ddiddordeb mewn rhyw fel pobl hŷn. |
| ✓ Cydnabod a chefnogi amrywiaeth ymhlith rhanddeiliaid sy'n arddel hunaniaeth LHDT+ ac ymhlith y preswylwyr sy'n byw yn eich cartref. | × Cymryd yn ganiataol fod pobl hŷn LHDT+ yn un grŵp, gyda'r un anghenion gofal a chymorth a diddordebau. |
| ✓ Codi ymwybyddiaeth ymhlith eich timau o enghreifftiau hanesyddol a phresennol o wahaniaethu, ymyleiddio ac eithrio y mae pobl LHDT+ wedi'u profi. | × Diystyru'r angen i drafod beth mae cynnwys pobl LHDT+ yn ei olygu yn y cartref gofal preswyl. |
| ✓ Sicrhau bod gan yr HOLL staff sgiliau rhyngbersonol a'r ddealltwriaeth i gyfathrebu gyda'r preswylwyr yn hyderus am bynciau sensitif a dechrau sgyrsiau am gynnwys a chydnabod pobl LHDT+. | × Cymryd yn ganiataol nad yw staff angen hyfforddiant amrywiaeth a chynhwysiant, er enghraifft glanhawyr, staff cegin, porthorion ac ati. |

University of BRISTOL

THE DIVERSITY TRUST
INFLUENCING SOCIAL CHANGE

## Gofal o dan yr Enfys

| | |
|---|---|
| ✓ Herio ymddygiadau gwahaniaethol a sylwadau homoffobaidd, trawsffobaidd a deuffobaidd mewn cartrefi gofal gan breswylwyr, staff ac ymwelwyr. | ✗ Cadw'n dawel os byddwch yn gweld staff, preswylwyr neu ymwelwyr yn ymddwyn mewn ffordd wahaniaethol, rhagfarnllyd neu sarhaus tuag at eraill oherwydd hunaniaeth rhyw neu hunaniaeth rhywedd. |
| ✓ Creu amgylchedd diogel i breswylwyr allu 'dod allan' fel pobl LHDT+ os ydynt yn dymuno gwneud hynny, a chefnogi eu dewisiadau. | ✗ Cymryd yn ganiataol bod pob preswylydd LHDT+ eisiau dod allan wrth eraill, neu rannu agweddau ar eu bywydau personol gydag aelodau eraill o staff a phreswylwyr. |
| ✓ Parchu a chefnogi perthnasau agos a rhwydweithiau cymdeithasol preswylwyr LHDT+. | ✗ Neidio i ragdybiaethau am hunaniaeth rhywedd neu hunaniaeth rhyw y rhai sy'n ymweld â phreswylwyr hŷn a beth yw'r berthynas rhyngddynt. |
| ✓ Cynnwys a siarad gyda phreswylwyr LHDT+ ynghylch pwy y dylid eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu trefniadau gofal a'u bywydau dydd i ddydd - mae'n bosib nad aelodau teulu biolegol fydd y rhain. | ✗ Dim ond cynnwys teulu biolegol pobl hŷn, heb ystyried eu hanwyliaid. |
| ✓ Bod yn ymwybodol o anghenion sy'n rhyngblethu pobl sydd â sawl hunaniaeth gymdeithasol (e.e. pobl hŷn LHDT+ sy'n ddu, Asiaidd neu o leiafrif ethnig a phobl LHDT+ sy'n anabl). | ✗ Gwahaniaethu yn erbyn grwpiau lleiafrifol neu anwybyddu eu hiechyd meddwl a'u llesiant a'u hanghenion sy'n rhyngblethu yn seiliedig ar agweddau o'u hunaniaeth sy'n rhyngblethu (e.e. hil, rhywedd, anabledd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol ac oedran). |

Cynhyrchwyd yr adnodd hwn ar y cyd rhwng Ysgol Astudiaethau Polisi Prifysgol Bryste a'r Ymddiriedolaeth Amrywiaeth, mis Mawrth 2019.

I gael rhagor o wybodaeth ac adnoddau, ewch i www.diversitytrust.org.uk/careunderrainbow.